**EITEM AR YR AGENDA: 17**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**18fed Mehefin 2007**

**Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau) (Cymru) 2007**

**Adroddiad gan Ian Miller,**
**Clerc i'r Awdurdod**

## Diben yr Awdurdod

**1.** I hysbysu aelodau o ddarpariaethau Rheoliadau Awdurdodau Lleol 2007 (Lwfansau i Aelodau) mewn perthynas ag awdurdodau tân ac achub ac i geisio cymeradwyaeth i ddiwygiadau dilynol i'r 'Cynllun ar gyfer Talu Lwfansau i Aelodau' yr Awdurdod.

## Cefndir

**2.** Yn Rhagfyr 2004, yn dilyn mabwysiadu Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau o Awdurdodau Tân) (Cymru) 2004, sefydlodd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ei 'Gynllun ar gyfer Talu Lwfansau i Aelodau'. Daeth y Cynllun hwn i rym o'r 29ain Medi 2004 – y dyddiad i'r Rheoliadau ganiatáu i'r fath gynllun ddod i rym.

**Cefndir** *(parhad)*

**3.** Roedd llythyr, dyddiedig 9fed Chwefror 2005, gan Weinidog Cyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth y Cynulliad bryd hynny yn rhoi arwydd o fwriad Llywodraeth y Cynulliad i adolygu, a chydgrynhoi y rheoliadau'n llywodraethu lwfansau cynghorwyr. Roedd llythyr y Gweinidog yn cynnwys nifer o gynigion i'w cynnwys yn y rheoliadau diwygiedig hefyd. Yn ei gyfarfod ar 25ain Ebrill 2005, ystyriwyd cynigion y Gweinidog gan Banel Gweithredol yr Awdurdod a chytunwyd ar ymateb manwl anfonwyd at Lywodraeth y Cynulliad wedi hyn.

**4.** Yn dilyn hyn, ymgymerwyd ag ymgynghoriad pellach yn ystod hydref 2006 pan gyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad y Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau) (Cymru) 2007 drafft. Ystyriwyd y Rheoliadau drafft yma gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 18fed Rhagfyr 2006 a cyflwynwyd eu harsylwadau i Lywodraeth y Cynulliad. Roedd yr adroddiad a gyflwynwyd i'r cyfarfod uchod (eitem 13 ar yr agenda fusnes) hefyd yn diweddaru'r aelodau ar y materion a godwyd gan yr Awdurdod yn ei ymateb i'r ymgynghoriad gwreiddiol.

**Gwybodaeth**

**5.** Cymeradwywyd y Rheoliadau newydd gan y Cynulliad Cenedlaethol ar 28ain Mawrth 2007.

**6.** O safbwynt awdurdod tân ac achub, mae'r Rheoliadau yma'n diwygio Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelod o Awdurdodau Tân) (Cymru) 2004. Mae'r diwygiadau yma yn darparu:

**Gwybodaeth** *(parhad)*

- gofyniad i'r awdurdodau tân osod cyfyngiad amser ar gyfer derbyn ceisiadau teithio a chynhaliaeth (mae paragraff 9 Cynllun Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ar gyfer Talu Lwfansau i Aelodau eisoes yn cynnwys hyn);
- yn ychwanegol i'r gofyniad presennol o gyhoeddi cyfansymiau y lwfansau sylfaenol a chyfrifoldeb arbennig a delir i aelodau ym mhob blwyddyn ariannol, bydd gofyn i awdurdodau gyhoeddi'r cyfanswm o lwfansau gofal, teithio a chynhaliaeth a delir i aelodau yn ystod unrhyw flwyddyn ariannol;
- i gywiro mân gamgymeriadau drafftio yn Rheoliadau 2004.
- cyflwyno pŵer i'r awdurdodau tân benderfynu os ydyn nhw'n dymuno talu lwfans cyfetholedig i aelodau heb eu hethol gyda hawliau pleidleisio e.e. aelodau annibynnol o'r Pwyllgor Safonau. Bydd gofynion cyhoeddi yn gymwys i dderbynwyr y lwfansau cyfetholedig hefyd.

**7.** Bydd Rheoliadau 2007 yn dod i rym mewn dau gam. Daeth y ddeddfwriaeth ar y tri phwynt cyntaf a restrwyd uchod i rym ar 1af Mehefin 2007 gyda'r pwynt olaf yn dod i rym yn ystod diwedd 2008. Y rheswm dros hyn yw fod y Rheoliadau yn pennu na all y lwfans cyfetholedig uchaf sy'n daladwy gan awdurdod tân fod yn fwy na chyfartaledd y lwfans cyfetholedig yn yr awdurdodau cyfansoddol. Ni fydd awdurdodau lleol yn gallu pennu lefel y lwfans cyfethol a delir i aelodau sy'n pleidleisio nis etholwyd nes i'r Panel Tâl Annibynnol gyhoeddi ei adroddiad cychwynnol, sydd rhai ei gyhoeddi erbyn 31ain Gorffennaf 2008. Felly, ni fydd awdurdodau tân yn gallu cyfrifo'r uchafswm o lwfansau i gyfetholwyr y gallant ei dalu i aelodau heb eu ethol tan ar ôl y dyddiad hwnnw.

**Gwybodaeth** *(parhad)*

**8.** O ganlyniad i'r Rheoliadau diwygiedig, mae angen rhai newidiadau dilynol i Gynllun yr Awdurdod ar gyfer Talu Lwfansau i Aelodau. Er mwyn gallu cyfeirio atynt heb drafferth, mae'r newidiadau hyn wedi cael eu rhestru yn Atodiad yr adroddiad hwn.

## 9. Argymhellion

Fod:

**9.1** aelodau yn nodi deddfiad Rheoliadau yr Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau) (Cymru) 2007 a'r ddarpariaethau o'r Rheoliadau mewn perthynas i awdurdodau tân;

**9.2** y bydd yr Awdurdod, mae o law, yn rhoi ystyriaeth i ddyfarnu lwfans cyfetholedig, a'r lefel o daliadau, i aelodau annibynnol o'i Bwyllgor Safonau; ac yn

**9.3** cymeradwyo'r newidiadau dilynol i Gynllun Talu Lwfansau Aelodau yr Awdurdod fel a fanylir yn yr Atodid sydd ynghlwm.

**Atodiad**

| **Paragraff** | **Rheswm am y diwygiad arfaethedig** | **Diwygiad arfaethedig** |
|---|---|---|
| Paragraff Cyntaf | Deddfiad o Reoliadau newydd | Mewnosod 'fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau) (Cymru) 2007" ar ôl y cyfeiriad ar Reoliadau 2004. |
| 2. | Pwerau roir i'r Awdurdod gan y Rheoliadau newydd i dalu lwfans cyfetholwyr | Mewnosod "Lwfans Cyfetholedig..." ar ôl y cyfeiriad at "Lwfans Cadeirydd neu Is-Gadeirydd…" |
| 3. Diffiniadau | | |
| "Grŵp Gweithredol" | Newid teitl y swydd | Amnewid y cyfeiriad at Prif Swyddog Cynorthwyol (Gwasanaethau Corfforaethol) gyda "Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael" |
| "aelod" | Deddfiad Rheoliadau newydd | Diwygio'r diffiniad i ddarllen "ystyr aelod yw aelod o Awdurdod Tân Gogledd Cymru neu Aelod Annibynnol o Bwyllgor Safonau'r Awdurdod" |
| "Rheoliadau" | Deddfiad Rheoliadau newydd | Diwygio'r diffiniad i ddarllen "yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Awdurdodau Tân) (Cymru) 2004 fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau) (Cymru) 2007" |

| | | |
|---|---|---|
| 6. | Deddfiad Rheoliadau newydd | Mewnosod paragraff 6 newydd a newid rhifau yr holl baragraffau dilynol (a chyfeirnodau perthynol) i adlewyrchu'r mewnosodiad.<br><br>Paragraff 6 newydd i ddarllen: "**Lwfansau Cyfetholedig"**<br>6.1 Yn unol â phenderfyniad yr Awdurdod, mae Lwfans Cyfetholedig yn daladwy i bob aelod annibynnol o Bwyllgor Safonau'r Awdurdod fel a ddangosir yn Atodlen 2. Bydd yn daladwy yn ôl rhandaliadau misol ac yn agored i gyfraniadau Treth Incwm ac Yswiriant Cenedlaethol, lle'n berthnasol." |
| Paragraff 7 presennol (fydd yn baragraff 8) | Deddfiad Rheoliadau Newydd | Newid 7.1 (8.1) i ddarllen "Mae'r Cynllun hwn yn darparu talu lwfansau teithio i berson(au) sydd wedi eu penodi'n aelod(au) annibynnol, fel a amlinellir yn Atodlen 2 ac, yn ddibynnol ar benderfyniad gan yr Awdurdod Tân, ar gyfer taliad o Lwfans Cyfetholedig i aelodau annibynnol." |
| Paragraff 8.1 presennol (fydd yn baragraff 9.1) | Deddfiad Rheoliadau Newydd | Newid y frawddeg gyntaf i darllen "Gall Aelod ymwrthod â rhan neu'r cyfan o Lwfans Awdurdod Tân, Lwfans Cadeirydd, Is-Gadeirydd neu Gyfetholedig Awdurdod Tân. |

| | | |
|---|---|---|
| Paragraff 11.1 presennol (fydd yn 12.1) | Deddfiad Rheoliadau Newydd | Mewnosod "Lwfans Cyfetholedig.." ar ôl Lwfans Is-Gadeirydd Awdurdod Tân..." |
| Paragraff 11.2 presennol (fydd yn 12.2) | Deddfiad Rheoliadau Newydd | Mewnosod "neu yn aelod annibynnol o'i Bwyllgor Safonau..." ar ôl "Aelod o'r Awdurdod" |
| Paragraff 12.1 presennol (fydd yn 13.1) | Deddfiad Rheoliadau Newydd | Newid 12.1 i ddarllen "Bydd darpariaethau'r paragraff hwn yn cael effaith i reoleiddio'r hawliadau i Lwfans Awdurdod Tân, Lwfansau Cadeirydd, Is-Gadeirydd a Chyfetholedig Awdurdod Tân pryd, yn ystod blwyddyn:..." |
| Paragraff 13.2 presennol (fydd yn 14.2) | Deddfiad Rheoliadau Newydd | Newid y paragraff i ddarllen "Gwneir trefniadau'n flynyddol i gyhoeddi'r taliadau a wnaed yn y flwyddyn ariannol flaenorol i aelodau o safbwynt Lwfans Awdurdod Tân, Lwfansau Cadeirydd Awdurdod Tân, Is-Gadeirydd Awdurdod Tân, Cyfetholedig, Gofal, Teithio a Chynhaliaeth. |
| Paragraff 14 presennol (fydd yn baragraff 15) | Deddfiad Rheoliadau Newydd | Mewnosod "a Chyfetholedig" ar ôl "Is-Gadeirydd" |
| Atodlen 2 | Deddfiad Rheoliadau newydd, cyfraddau teithio a chynhaliaeth newydd a mân newidiadau eraill | Atodlen i'w newid i adlewyrchu'r newidiadau restrir uchod wedi deddfiad Rheoliadau 2007 ac i gynnwys y cyfraddau presennol. |

MEWN CYFYNGDER Y GELWAIST